
Reporting Officer(s):

Duncan Hall - Executive Corporate Lead Officer: Finance & Procurement

Justin Davies - Corporate Manager: Corporate Finance

Date:

24/02/26

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Cyngor

Dyddiad y Cyfarfod: 02/03/26

Teitl: Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ynghylch Pennu Treth y Cyngor ar gyfer 2026/27

Pwrpas yr adroddiad: Cymeradwyo a phennu Treth y Cyngor ar gyfer 2026/27

Er: Penderfyniad

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: Cyllid a Chaffael
Y Cynghorydd Gareth Davies

1. CYFLWYNIAD

Cyflwynir y manylion sydd yn yr adroddiad hwn gan dybio bod y Cyngor yn gynharach heddiw wedi ystyried cyllideb y Cyngor ar gyfer 2026/27 o £221.499m ac wedi penderfynu codi £1,976.18 mewn Treth y Cyngor ar Eiddo Band D at ddibenion y Cyngor Sir.

Mae'r adroddiad hwn yn ofynnol gan ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn penderfynu lefelau Treth y Cyngor am y flwyddyn sydd i ddod gan gynnwys pob rhan gydran.

Mae'n bwysig bod Aelodau'n nodi bod hwn yn adroddiad 'technegol' sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth ac o'r herwydd nid yw'n ailagor unrhyw agwedd ar broses y Gyllideb.

2. PENNU TRETH Y CYNGOR

Ar ôl cael gwybod am anghenion praesept pob Cyngor Tref a Chymuned a phraesept Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys, mae angen i'r Cyngor fynd ati yn awr i gymeradwyo'n ffurfiol yr anghenion cyllidol, a phennu Treth y Cyngor ar gyfer 2026/27.

Bydd y Dreth Gyngor gyfunol ar Fand D ar gyfer 2026/27 yn £2,419.45 sef cynnydd o 5.37% o gymharu â 2025/26. Mae'r dadansoddiad o'r Dreth Gyngor gyfunol fel a ganlyn:

	<u>2025/26</u>	<u>2026/27</u>	<u>Newid</u>
Cyngor Sir Band D	£1,886.57	£1,976.18	4.75%
Cynghorau Cymuned (ar gyfartaledd) Band D	£48.84	£55.64	13.92%
Band D Heddlu Dyfed-Powys	£360.68	£387.63	7.47%
Cyfanswm Treth y Cyngor Band D ar gyfartaledd	£2,296.09	£2,419.45	5.37%

Mae'r Datganiadau a'r cyfrifiadau statudol ar gyfer 2026/27 i'w gweld yn Atodiad A i'w cymeradwyo, ac maent yn cynnwys y canlynol:

Tudalen	Eitem	Pwrpas
1	Eitemau Arbennig y Treth y Cyngor	Praeseptau Cyngorau Tref a Chymuned
2	Cyfrifiadau Pennu Treth y Cyngor	Cyfrifiadau ffurfiol Treth y Cyngor yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 – Eitemau (a) i (g).
3	Cyfrifiadau Pennu Treth y Cyngor	Cyfrifiadau ffurfiol Treth y Cyngor yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 - Eitem (h).
4 a 5	Cyfrifiadau Pennu Treth y Cyngor	Cyfrifiadau ffurfiol Treth y Cyngor yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 - Eitem (i).
6 a 7	Cyfrifiadau Terfynol Treth y Cyngor ar gyfer pob Band	Yn cynnwys praeseptau Cyngor Tref a Chymuned a phresept Heddlu Dyfed-Powys

3. ARGYMHELLION

3.1 Argymhellir i'r Cyngor nodi'r canlynol:

- Cymeradwyodd y Cabinet Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2026/27 yn ffurfiol o 34,492.54, yn ei gyfarfod ar 02/12/25.
- Bod y symiau praesept a gyhoeddwyd i'r Cyngor gan y Cyngorau Tref a Chymuned ar gyfer 2026/27 i'w gweld yn Atodiad A – Tudalen 1.
- Bod y symiau praesept a gyhoeddwyd i'r Cyngor gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys ar gyfer 2026/27 i'w gweld yn Atodiad A – Tudalen 2.
- Bod y symiau a bennwyd gan y Cyngor ar gyfer elfen Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer 2026/27 hefyd i'w gweld yn Atodiad A – Tudalen 2.

3.2 Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27, yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, fel y nodir yn Atodiad A – Tudalen 2 (a) i (g), Tudalen 3 (h) a Thudalennau 4 a 5 (i).

3.3 Bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn pennu'r symiau, fel y nodir yn Atodiad A – Tudalennau 6 a 7, fel symiau Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau (gan fod y Cyngor wedi cyfrifo'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn Atodiad A – Tudalennau 4 a 5 (i) a'r symiau praesept a gyhoeddwyd i'r Cyngor gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys (Atodiad A – Tudalen 2)).

Pennu lefelau Treth y Cyngor yn ffurfiol ar gyfer 2026/27

**Rheswm/Rhesymau
dros y penderfyniad:**

Rhan o'r broses o bennu'r Gyllideb

**Llesiant
cenedlaethau'r
dyfodol:**

**Deddf Cydraddoldeb
2010:**

Rhan o'r broses o bennu'r Gyllideb

**Mesur y Gymraeg
(Cymru) 2011 a
Safonau'r Gymraeg:**

Rhan o'r broses o bennu'r Gyllideb

Trosolwg a Chraffu:

Mae pob Pwyllgor Craffu wedi ystyried y cynigion ynghylch y Gyllideb

Fframwaith Polisi:

Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

**Amcanion Llesiant
Corfforaethol:**

Pob un

**Goblygiadau Cyllid a
Chaffael:**

Rhan o'r broses o bennu'r Gyllideb

**Goblygiadau
Cyfreithiol:**

Cydymffurfio â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

Goblygiadau staffio:

Rhan o'r broses o bennu'r Gyllideb

**Goblygiadau o ran
Eiddo / Asedau:**

Rhan o'r broses o bennu'r Gyllideb

Risg(au):

Rhan o'r broses o bennu'r Gyllideb

Pwerau Statudol:

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

Papurau Cefndir:

Adroddiad i'r Cabinet ynghylch y Gyllideb ar 13/02/26;
Praeseptau Cyngorau Tref a Chymuned ar gyfer 2026/27;
Praesept Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
Dyfed-Powys ar gyfer 2026/27

Atodiadau:

Atodiad A

**Swyddog Arweiniol
Corfforaethol:**

Duncan Hall

Swyddog(ion) Adrodd:

Duncan Hall, Justin Davies, Amanda Shepherd

Dyddiad:

24/02/26

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Report to: Council

Date of meeting: 02/03/26

Title: Report of the Executive Corporate Lead Officer – Finance and Procurement upon Council Tax Setting for 2026/27

Purpose of the report: To approve and set the Council Tax for 2026/27

For: Decision

Cabinet Portfolio and Cabinet Member: Finance and Procurement
Cllr Gareth Davies

1. INTRODUCTION

The details within this report are presented on the assumption that the Council will have earlier today considered and approved the Council's Budget for 2026/27 of £221.499m and resolved to levy a Council Tax for County Council purposes of £1,976.18 for Band D Properties.

This report is required by legislation to ensure the Council resolves Council Tax levels for the forthcoming year to include all component parts.

It is important that Members note this is a 'technical' report required by legislation and as such does not reopen any aspect of the Budget process.

2. COUNCIL TAX SETTING

The Council, having been notified of the precept requirements from each of the Town and Community Councils, and the precept of the Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys, now needs to formally approve the statutory budget calculations, and set the Council Tax for 2026/27.

The average of the combined Council Tax at Band D for 2026/27 will be £2,419.45 which represents an increase of 5.37% compared with 2025/26. The breakdown of the combined Council Tax is as follows:

	<u>2025/26</u>	<u>2026/27</u>	<u>Change</u>
County Council Band D	£1,886.57	£1,976.18	4.75%
Community Councils Band D (Average)	£48.84	£55.64	13.92%
Dyfed-Powys Police Band D	£360.68	£387.63	7.47%
Total Average Band D Council Tax	<u>£2,296.09</u>	<u>£2,419.45</u>	<u>5.37%</u>

APPENDIX 2

Enclosed as Schedules are the 2026/27 statutory statements and calculations for approval, which consists of:

Schedule	Item	Purpose
1	Council Tax Special Items	Town & Community Council Precepts
2	Council Tax Setting Calculations	Formal Council Tax calculations in accordance with Sections 32 to 36 of the Local Government Finance Act 1992 - Items (a) to (g).
3	Council Tax Setting Calculations	Formal Council Tax calculations in accordance with Sections 32 to 36 of the Local Government Finance Act 1992 - Item (h).
4	Council Tax Setting Calculations	Formal Council Tax calculations in accordance with Sections 32 to 36 of the Local Government Finance Act 1992 - Item (i).
5	Final Council Tax calculations for all Bands	Includes Town & Community Council precepts and Dyfed Powys Police precept

3. RECOMMENDATIONS

3.1 That the Council notes that:

- At its meeting on 02/12/25 the Cabinet formally approved the Council Tax Base for 2026/27 of 34,492.54.
- The Precept amounts issued to the Council by Town & Community Councils for 2026/27 are shown in Schedule 1.
- The Precept amounts issued to the Council by the Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys for 2026/27 are shown in Schedule 2.
- The amounts set by the Council for the Ceredigion County Council component for 2026/27 are also shown in Schedule 2.

3.2 That the Council approves the amounts calculated by the Council for the 2026/27 financial year, in accordance with Sections 32 to 36 of the Local Government Finance Act 1992, as set out in Schedule 2 (a) to (g), Schedule 3 (h) and Schedule 4 (i).

3.3 That the Council, in accordance with Section 30(2) of the Local Government Finance Act 1992, hereby sets the amounts, as set out in Schedule 5, as the amounts of Council Tax for the financial year 2026/27 for each of the categories of dwellings (The Council having calculated the aggregate in each case of the amounts at Schedule 4 (i) and the Precept amounts issued to the Council by the Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys (Schedule 2)).

Reasons for decision: To formally set the Council Tax levels for 2026/27

APPENDIX 2

<u>Wellbeing of Future Generations:</u>	Part of the budget setting process
<u>Equality Act 2010:</u>	Part of the budget setting process
<u>Welsh Language (Wales) Measure 2011 and the Welsh Language Standards:</u>	Part of the budget setting process
<u>Overview and Scrutiny:</u>	All Scrutiny Committees have considered the budget proposals
<u>Policy Framework:</u>	Medium Term Financial Strategy
<u>Corporate Well-being Objectives:</u>	All
<u>Finance & Procurement implications:</u>	Part of the budget setting process
<u>Legal Implications:</u>	To comply with Local Government Finance Act 1992
<u>Staffing implications:</u>	Part of the budget setting process
<u>Property / asset implications:</u>	Part of the budget setting process
<u>Risk(s):</u>	Part of the budget setting process
<u>Statutory Powers:</u>	Local Government Finance Act 1992
<u>Background Papers:</u>	Budget Report to Cabinet on 13/02/26; Town and Community Council Precepts for 2026/27; Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys Precept for 2026/27
<u>Appendices:</u>	Schedules 1 - 5
<u>Corporate Lead Officer:</u>	Duncan Hall
<u>Reporting Officer(s):</u>	Duncan Hall, Justin Davies, Amanda Shepherd
<u>Date:</u>	24/02/26

Risgiau'r Gyllideb

Dyma'r prif risgiau a nodwyd ar gyfer y gyllideb ynghyd â'r sylwadau priodol, a'r mesurau sydd ar waith i leihau'r risg:

1. Newidiadau i lefel Cyllid Allanol Cyfun Llywodraeth Cymru

Mae swm y Grant Cynnal Refeniw a'r Ardrethi Annomestig a gaiff eu hailddosbarthu bellach yn darparu ychydig o dan 70% o'r cyllid ar gyfer gwariant refeniw net y Gronfa Gyffredinol. Gall newidiadau i'r modd y caiff grantiau eu dosbarthu gael effaith fawr ar gyllid y Cyngor. Gall y Cyngor gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru'n uniongyrchol a thrwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn ceisio dylanwadu ar y newidiadau a wneir.

2. Newidiadau annisgwyl cyffredinol mewn gwariant a / neu incwm yn ystod y flwyddyn

Un rheswm pam y mae'r Cyngor yn cadw cronfeydd wrth gefn yw er mwyn cynnig rhywfaint o ddiogelwch yn erbyn newidiadau annisgwyl. Mae system fisol reolaidd ar waith i fonitro'r gyllideb, gydag adroddiadau chwarterol ffurfiol yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau ynghyd ag adroddiadau am eithriadau rhwng y cyfnodau hynny. Mae cynnal Cronfa Wrth Gefn Gorfforaethol fechan hefyd yn cynorthwyo gyda lefel benodol o liniaru risg yn ystod y flwyddyn, yn enwedig gan fod y Dyfarniadau Cyflog Staff Cyffredinol yn anodd eu rhagweld a lefelau chwyddiant yn parhau'n uchel.

Mae'r Cyngor yn yswirio yn erbyn y prif risgiau hysbys megis difrod tân, atebolrwydd cyflogwr ac atebolrwydd cyhoeddus.

3. Newidiadau o ran incwm grant penodol

Mae'r Cyngor yn derbyn symiau mawr bob blwyddyn ar ffurf grantiau penodol. Pe bai rheolau'r Llywodraeth yn newid neu pe baem drwy amryfusedd yn methu â chydymffurfio ag amodau grantiau, mae risg bosib y gallem golli incwm grant sylweddol. Mae archwilywyr allanol y Cyngor yn mynd ati'n gyson i adolygu'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweinyddu grantiau, a rhoddir gwelliannau gweithdrefnol ar waith lle bo angen i sicrhau nad ydym yn colli unrhyw incwm grant.

Hefyd mae risg bosib pe bai grantiau refeniw penodol Llywodraeth Cymru'n dod i ben, ond yn aml mae disgwyliad bod angen i'r gwasanaethau a ariennir drwy grantiau o'r fath gael eu cynnal ar yr un lefel. Lle bynnag y bo modd, dylid paratoi strategaethau ymadael i ymdrin â'r canlyniadau pan fydd cyllid grant yn dod i ben.

Yn y pen draw, bydd toriad mewn cyllid grant bron bob amser yn golygu bod yn rhaid i Wasanaethau dorri eu brethyn yn unol â hynny. Dim ond drwy eithriad y byddai hyn yn cael ei drin fel mater corfforaethol.

4. Twyll (gan gynnwys Seiberddiogelwch)

Gallai twyll mawr achosi colled ariannol sylweddol i'r Cyngor yn ogystal â gwanhau hyder y cyhoedd. Mae'r Cyngor yn cynnal system o reoliadau ariannol a rheolau sefydlog i reoli'r risg hon ochr yn ochr â threfniadau cynllunio ar gyfer argyfyngau sifil posibl a pharhad busnes. Mae Gweithgor o Swyddogion yn weithredol sy'n canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â seiberddiogelwch a chydnerthedd busnes sy'n gysylltiedig â hyn. Fel rhan o'i chylch gorchwyl, bydd adain Archwilio Mewnol y Cyngor yn ymchwilio i risgiau posib o ran twyll, yn rhoi cyngor ynghylch arfer dda, ac yn sicrhau bod systemau rheoli mewnol digonol ar waith a'u bod yn cael eu dilyn.

5. Ansolfedd Partïon i Contractau

Gallai'r Cyngor wynebu colledion yn sgil ansolfedd partneriaid pwysig neu gyflenwyr masnachol. Mae hon yn risg benodol mewn perthynas â thrafodion buddsoddi. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisiau Rheoli'r Trysorlys i ledaenu a lleihau'r risgiau yn y maes hwn. Mae partneriaid masnachol a chontractwyr sy'n gweithio i'r Cyngor yn destun asesiadau ariannol ac asesiadau eraill (e.e. adroddiadau Dun & Bradstreet), a gellir cyfyngu maint y contractau sy'n cael eu dyfarnu ar ôl ystyried canlyniadau asesiadau o'r fath.

6. Cronfeydd Pensiwn

- a) Mae'r Cyngor yn cyfrannu at Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Dyfed, ar gyfer staff cyffredinol y Cyngor a'r Cynghorwyr sy'n dewis peidio ag eithrio eu hunain o'r cynllun. Gweinyddir y gronfa gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Cynllun buddion wedi'i ddiffinio yw'r cynllun pensiwn ac mae'n gynllun sy'n cael ei gefnogi gan asedau, sy'n golygu mai'r cyflogwr yn unig sy'n ysgwyddo'r risg mewn perthynas ag adenillion buddsoddi a newidiadau demograffig.

Yn seiliedig ar brisiad Tair Blynedd Mawrth 2025, mae Cronfa Bensiwn Dyfed mewn sefyllfa gyffredinol o warged (h.y. aseswyd yn actiwaraid bod rhwymedigaethau'r presennol a'r dyfodol wedi'u gor-gyllido o fwy na 100%). Gall y Cyngor gynllunio ar gyfer senarios o Warged neu Ddiffyg i'w gwasgaru dros gyfnod o sawl blwyddyn er mwyn lleihau unrhyw effaith uniongyrchol ar y gyllideb. Y gyfradd o ran cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer Ceredigion yw 12.5% o fis Ebrill 2026 (roedd 14.6%).

- b) Mae'r Cyngor yn cyfrannu at Gynllun Pensiwn Athrawon ar gyfer yr athrawon sy'n dewis peidio ag eithrio eu hunain o'r cynllun. Gweinyddir y gronfa gan yr Adran Addysg o dan y Llywodraeth ganolog. Mae'r cynllun yn gynllun buddion wedi'i ddiffinio ond mae'n gynllun nas cyllidir, yn wahanol i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Caiff cyfraniadau cyflogwyr eu heffeithio gan newidyn allweddol o'r enw cyfradd ddisgownt SCAPE (*Superannuation Contributions Adjusted for Past Experience*). Arweiniodd yr adolygiad diweddaraf o SCAPE at gynyddu cyfradd cyfraniadau cyflogwyr yn genedlaethol o 23.6% i 28.6% o 01/04/24 ymlaen.
- c) Mae Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru'n cyfrannu at Gynllun Pensiwn Ymladdwyr Tân ar gyfer ymladdwyr tân sydd wedi dewis peidio ag eithrio eu hunain o'r cynllun. Mae'r cynllun yn gynllun buddion wedi'i ddiffinio ond mae hefyd yn gynllun nas cyllidir. Mae risg y byddai unrhyw newid sylweddol yng nghyfradd cyfraniadau cyflogwyr yn arwain at gynydd yn yr ardoll y mae'r Cyngor yn ei dalu i Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru. Yn ogystal, effeithir y cynllun gan y gyfradd ddisgownt SCAPE.

7. Cyfraddau Llog

Mae gan y Cyngor fenthyciadau hirdymor sylweddol ochr yn ochr â buddsoddiadau. Gall newidiadau i'r cyfraddau llog gael effaith sylweddol ar incwm llog ac ar gost benthyciadau newydd sydd eu hangen i gefnogi gwariant cyfalaf newydd.

Mae'r Cyngor yn monitro cyfraddau llog a'u heffaith fel rhan o'r broses ar gyfer monitro'r gyllideb. Mae Banc Lloegr wedi dechrau gostwng Cyfradd Swyddogol y Banc sy'n 4.0% wrth ysgrifennu'r hyn o eiriau. Rhagwelir rhagor o ostyngiadau graddol ond mae costau benthyg wedi codi yn ddiweddar. Gweithredwyd strategaeth benthyca mewnol ers blynnyddoedd lawer gan gadw benthyca allanol i lawr drwy ddefnyddio arian parod sy'n caei ei ddal ar gyfrif (sydd mewn gwirionedd yn cynrychioli'r eitemau sydd â chefnogaeth arian parod wrth gefn ar y fantolen megis y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd).

Fodd bynnag mae cyfraddau llog wedi dod i anterth erbyn hyn, ac wrth i'r cyfraddau llog ostwng, a lefel y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ostwng, bydd y gallu i ennill yr un lefel o incwm buddsoddi yn lleihau.

8. Chwyddiant cyflogau (gan gynnwys Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr)

Costau gweithwyr yw elfen fwyaf y gyllideb. Bydd cynnydd mawr mewn cyfraddau cyflogau yn cael effaith niweidiol ar gyllideb y Cyngor. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff, caiff cyflogau eu trafod ar raddfa genedlaethol naill ai ar lefel y Deyrnas Unedig (NJC - Y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol) neu ar lefel Llywodraeth Cymru (Athrawon)

ac nid oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth na rhan uniongyrchol yn y trafodaethau a gynhelir.

Gyda llog yn parhau i fod yn uchel, mae'r dyfarniadau Tâl yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn eitemau sylweddol o ran costau. Mae'r risg yn parhau y bydd dyfarniadau Tâl yn parhau i fod yn uchel yn 25/26 er bod llog y CPI (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) bellach o dan 3%. Caiff hyn ei yrru i raddau helaeth gan godiadau sylweddol Llywodraeth y DU yn y Cyflog Byw Cenedlaethol. Drwy weithredu'r cytundeb statws sengl a gwerthuso graddau yn systematig, nod y Cyngor yw cynnal strwythur tâl sy'n deg ond fforddiadwy.

Ym mis Hydref 2024 cyhoeddodd y Canghellor gynnydd sylweddol yn Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr o fis Ebrill 2025 ymlaen drwy newid y gyfradd (o 13.8% i 15.0%) yn ogystal â'r trothwy ar gyfer dechrau talu Yswiriant Gwladol (i lawr o £9,100 i £5,000. Dyma enghraifft o sut y gall newidyn allweddol – y tu allan i reolaeth y Cyngor – newid heb fawr o rybudd, neu ddim rhybudd o gwbl.

9. Chwyddiant nad yw'n ymwneud â chyflogau

Rydym dal mewn cyfnod o chwyddiant sy'n uwch na'r cyfartaledd ac mae'r lefelau yn rhai nas gwelwyd ers cyn 2008. Mae gan Fanc Lloegr gyfrifoldeb i gadw chwyddiant ar y trywydd iawn ar tua 2%, fodd bynnag cododd chwyddiant CPI i dros 11% cyn dechrau disgyn yn ôl (adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae wedi disgyn i 3.6% yn seiliedig ar CPI mis Hydref 2025). Caiff hyn effaith ar gcontractau presennol â chyflenwyr sy'n cynnwys darpariaethau sy'n gysylltiedig â chwyddiant yn ogystal â phrisio contractau newydd (refeniw a chyfalaf).

Mae cyflenwyr sy'n gweithio yn y sector Gofal Cymdeithasol hefyd yn cael eu heffeithio gan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i Weithwyr Gofal Cymdeithasol cofrestredig, sydd wedi cynyddu'n sylweddol bob blwyddyn, gan achosi costau chwyddiant sylweddol o ran y gwasanaethau gofal a gomisiynir yn allanol.

Felly mae chwyddiant nad yw'n ymwneud â chyflogau yn parhau i fod yn risg gyllidebol, yn enwedig o ran effaith Yswiriant Gwladol Cyflogwyr ar gyflenwyr a sut maen nhw'n dewis dygymod ag ef. Mae'r chwyddiant ar gyfer Ceredigion yn dal i fod uwch na'r mesuriad CPI cenedlaethol.

10. Effeithiau ar ôl COVID-19

Roedd 2020 hyd 2022 yn gyfnod digynsail i'r Cyngor yn ariannol ac yn weithredol oherwydd pandemig COVID-19. Er bod y risg ar raddfa fawr a fodolai wedi chwalu i raddau helaeth, mae effeithiau ar ôl COVID yn dal i gael eu gweld mewn sawl man.

Mae hyn yn amrywio o heriau recriwtio a chadw staff mewn sawl gwasanaeth i bethau ymarferol gweithredol, e.e. o ran yr achosion sy'n dod

i sylw Addysg a Gofal Cymdeithasol, mae mwy ohonynt ac maent yn fwy cymhleth na'r cyfnodau 'normal' cyn COVID. Mae'r olaf o'r rhain yn cynnwys cynnydd sylweddol yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir, ynghyd â chynnydd mewn meysydd eraill megis Anghenion Dysgu Ychwanegol a lleoliadau preswyl ar gyfer Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl.

11. Defnyddio Staff Asiantaeth

Mae'r her recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn arwyddocaol iawn, gyda nifer o feysydd Gofal Cymdeithasol yn benodol yn parhau i ddefnyddio staff asiantaeth. Gwneir hyn er mwyn cyflenwi swyddi Gweithwyr Cymdeithasol proffesiynol sy'n swyddi craidd a statudol, ynghyd â chyflenwi shifftiau yng Nghartrefi Gofal yr Awdurdod Lleol. Gweithredwyd strategaethau Adnoddau Dynol amrywiol gan gynnwys cynnig taliadau atodol ar sail y farchnad i weithwyr cymdeithasol, ond mae'r defnydd a wneir o staff asiantaeth yn parhau i fod yn sylweddol ac mae'n peri risg ariannol a pharhaus.

12. Ffosffadau

Cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru dystiolaeth o lefelau ffosffadau ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig afonol Afon Teifi ynghyd â datganiad sefyllfa / canllawiau cynllunio dros dro ym mis Mai 2021.

Mae effaith hyn yn cwmpasu 45% o dir Ceredigion a bydd hyn yn creu problemau sylweddol o ran datblygu yn yr ardaloedd sydd wedi'u heffeithio nes y bydd y mater wedi'i ddatrys. O safbwynt cul, gallai hyn effeithio ar feysydd megis incwm rheoli adeiladu a ffioedd cynllunio, ond mewn ystyr ehangach gallai achosi goblygiadau pellgyrhaeddol o ran datblygu tai a datblygu economaidd.

Mae rhywfaint o hyblygrwydd wedi dod i'r amlwg mewn rhai meysydd ond disgwylir am fanylion llawn rhaglenni buddsoddi Dŵr Cymru at y dyfodol. Gallai buddsoddiad cynnar leihau'r risg a nodwyd. Serch hynny, rhagwelir rhagor o gyfyngiadau pan fydd tystiolaeth a chanllawiau yn cael eu cyhoeddi ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol.

13. Premiymau Treth y Cyngor

Roedd penderfyniad y Cyngor ar 14/12/23 i gynyddu Premiymau Treth y Cyngor yn achos Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor yn newidiad sylweddol o ran polisi.

Mae nifer y tai sy'n destun Premiwm Treth y Cyngor yn y gwahanol gategoriâu yn cael ei fonitro'n ofalus ac yn rheolaidd er mwyn deall y tueddiadau posib ac i weld pa newid ymddygiadol sy'n digwydd mewn gwirionedd ar lawr gwlad (e.e. Pa gyfran o berchnogion tai fydd yn dewis talu'r Premiwm ar y lefel newydd a faint fydd yn ceisio'i osgoi neu yn dewis gwerthu'r eiddo). Mae'n ddyddiau cynnar o hyd i'r polisi newydd, yn

enwedig gyda'r cynnydd i'r cam nesaf o 150% a fydd yn berthnasol ar gyfer Ail Gartrefi o fis Ebrill 2025 ymlaen.

Felly mae risgiau i gyfraddau casglu Treth y Cyngor ynghyd â nifer yr eiddo sy'n destun premiwm, fodd bynnag pennwyd yr amcangyfrifon ar gyfer sylfaen y dreth mewn modd darbodus.

14. Mesurau Diogelwch Tân

O ganlyniad i ddeddfwriaeth yn dilyn trychineb Grenfell, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cynyddu nifer yr arolygiadau diogelwch tân mewn ysgolion, cartrefi gofal ac adeiladau allweddol eraill y Cyngor.

Mae'r archwiliadau tân diweddaraf wedi tynnu sylw at y ffaith fod angen cryn dipyn o waith er mwyn i holl adeiladau'r Cyngor gydymffurfio â'r rheoliadau. Mae costau refeniw a chyfalaf sylweddol yn gysylltiedig â sicrhau bod holl adeiladau'r Cyngor yn cydymffurfio'n llwyr.

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i lunio cynlluniau gweithredu ar gyfer pob adeilad wrth iddynt gael eu harchwilio a'u harolygu. Mae hyn yn cynnwys creu Strategaeth Dân ar gyfer pob eiddo unigol fel bod modd blaenoriaethu gwaith diogelwch tân gan gydnabod mai ond hyn a hyn o adnoddau sydd ar gael.

15. Heriau Cyfreithiol Allanol

Wrth i sefyllfa'r Gyllideb fynd yn anoddach (ac wrth i benderfyniadau'r Aelodau fynd yn anoddach hefyd ac yn fwy dadleuol eu natur oherwydd yr effaith fawr bosib ar wasanaethau rheng flaen) bydd y risg y caiff y penderfyniadau hyn eu herio yn allanol yn codi hefyd. Gall effaith hyn amrywio, o gael effaith ar adnoddau sydd eisoes dan bwysau i ailystyried penderfyniadau unigol os yw'r sail ar gyfer hynny yn ddigon cadarn.

Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ei Wasanaethau'n effeithlon ac yn effeithiol felly byddai osgoi gwneud newidiadau i Wasanaethau pan mae dulliau mwy arloesol ac effeithlon o gyflenwi ar gael yn rhywbeth na fyddai'n cynnig gwelliant parhaus a gwerth am arian i'r trethdalwr.

16. Cyfrifoldebau Estynedig Cynhyrchwyr o ran Pecynnu

Mae Llywodraeth y DU, drwy DEFRA, yn cyflwyno rheoliadau newydd mewn perthynas â Chyfrifoldebau Cynhyrchwyr (Deunyddiau Pecynnu a Gwastraff Pecynnu). O ganlyniad, bydd cynhyrchwyr deunyddiau pecynnu na ellir eu hailgylchu yn dechrau talu ardoll ar eu cynhyrchion unwaith y daw'r rheoliadau i rym.

Bydd y rheoliadau hefyd yn mynnu bod rhan o'r arian a godir drwy'r ardoll hon yn cael ei hailddosbarthu i Awdurdodau Lleol ledled y DU er mwyn eu helpu gyda'r gost o gasglu a gwaredu gwastraff. Mae hon yn gyfres gymhleth o newidiadau ac nid yw'n eglur sut yn union fydd y system newydd yn gweithio o ddydd i ddydd na chwaith beth fydd yn ei olygu'n ariannol (gan gynnwys ei effaith ar gyllid grant presennol Llywodraeth Cymru – Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy).

Budget Risks

The following are the identified main risks for the budget together with the appropriate comments, and controls applied to minimise the risk:

1. Changes to the level of WG Aggregate External Finance (AEF)

The sum of the Revenue Support Grant and redistributed Non-Domestic Rates will now provide just under 70% of the funding for the General Fund's net revenue expenditure. Changes to the grant distribution can have a major impact on the Council's finances. The Council can make representations to Welsh Government both directly and through the Welsh Local Government Association to attempt to influence the changes which are made.

2. General Unforeseen changes in expenditure and/or income in the year

One reason that the Council maintains reserves is to give some protection against unforeseen changes. A regular monthly system of budget monitoring is operated with formal quarterly reports to Members together with exception reporting between those periods. Maintaining a small Corporate Contingency also assists with a certain level of in year risk mitigation, particular with General staff Payawards being difficult to forecast and inflation levels still being elevated.

The Council insures against known major risks such as fire damage, employers and public liability.

3. Changes in specific grant income

The Council receives large sums each year in specific grants. There is a potential risk if changes in Government rules, or an inadvertent failure to comply with grant conditions, might result in a significant loss of grant income. The Council's external auditors regularly review the way the Council administers grants, and procedural improvements are put in place where necessary to ensure that there is no loss of grant income.

There is also a potential risk if specific WG revenue grants cease, but there's often an expectation that the services funded via such grants need to be maintained at the same level. Wherever possible, exit strategies should be in place to deal with the consequences when grant funding comes to an end.

Ultimately a cut in grant funding will almost always mean Services having to cut their cloth accordingly. Only by exception would this be treated as a corporate issue.

4. Fraud (including Cyber Security)

Major fraud might cause significant financial loss to the Council as well as weakening public confidence. The Council maintains a system of financial regulations and standing orders to control this risk alongside business continuity and civil contingency planning arrangements. There is an active Officer Working Group focussed on Cyber Security related matters and associated business resilience. The Council's Internal Audit section, as part of its remit, will investigate potential Fraud risks, advise on best practice, and ensure that adequate internal control systems are in place and that they are being adhered to.

5. Insolvency of Counterparties

The Council might suffer losses in the event of the insolvency of major partners or commercial suppliers. This is a particular risk in relation to investment transactions. The Council has adopted Treasury Management policies to spread and minimise risks in this area. Commercial partners and contractors working for the Council are subject to financial and other assessments (e.g. Dun & Bradstreet reports), and the size of contracts awarded may be limited after taking into account the outcome of such assessments.

6. Pension Funds

- a) The Council contributes to the Dyfed Local Government Pension Fund in relation to both general Council staff and Councillors who choose not to opt out of the scheme. The fund is administered by Carmarthenshire County Council. The scheme is a defined benefit scheme and is an asset backed funded scheme which means the risk in relation to investment returns and demographic changes falls entirely on the employer.

Based on the March 2025 Triennial valuation, the Dyfed Pension Fund is in an overall Surplus position (i.e. current and future liabilities have been actuarially assessed as being over funded by more than 100%). The Council is able to plan for Surplus or Deficit scenarios to be spread over a period of several years to minimise any immediate budgetary impact. The Employers contribution rate for Ceredigion is 12.5% from April 2026 (was 14.6%).

- b) The Council contributes to the Teachers Pension Scheme in relation to Teachers who choose not to opt out of the scheme. The fund is administered by the Department for Education under central Government. The scheme is a defined benefit scheme but is an unfunded scheme, unlike the Local Government Pension Scheme. Employer Contributions are impacted by a key variable called the SCAPE (Superannuation Contributions Adjusted for Past Experience) discount rate. The latest SCAPE review has resulted in the Employers contribution rate increasing nationally from 23.6% to 28.6% from 01/04/24.
- c) Mid & West Wales Fire Authority contributes into the Firefighters Pension Scheme in relation to Fire-fighters who choose not to opt out of the scheme. The scheme is a defined benefit scheme but is also an unfunded scheme. There is a risk that any significant change in the Employers contribution rate would be reflected in an increased Fire levy on the Council from M&WWFA. The scheme is also impacted but the SCAPE discount rate.

7. Interest Rates

The Council has significant long term borrowing alongside investments. Changes in interest rates can have a significant effect on interest income, and on the cost of new loans required to support new capital expenditure.

The Council monitors interest rates and their effect as part of the budget monitoring process. The Bank of England has started to reduce the Official Bank Rate which at the time of writing is at 4.0%. Further gradual reductions are forecast but borrowing costs have increased recently. An internal borrowing strategy has been employed for many years by keeping external borrowing down by utilising cash held on account (which in effect represents the cash backed items on the balance sheet such as earmarked reserves).

With interest rates now starting to reduce, coupled with declining levels of earmarked reserves, then the ability to earn the same level of investment income will reduce.

8. Inflation on Pay (including Employers' National Insurance)

Employee costs are the largest element of the budget. A large increase in pay rates will adversely affect the Council's budget. For the majority of staff pay is negotiated nationally either at a UK level (NJC) or at WG level (Teachers) and the Council has no control or direct part in the negotiations that take place.

With inflation remaining elevated, Pay awards in recent years have been significant cost items and a risk persists that elevated Pay awards could still be seen in 25/26 even with CPI inflation now down below 3%. A large part of this is also being driven by the UK Government's substantial increases to the National Living Wage. Through the implementation of the single status agreement and the operation of a systematic evaluation of grading the Council aims to maintain a fair but affordable pay structure.

In October 2024 the Chancellor announced a significant increase in Employers' National Insurance from April 2025 through a change in both the rate (from 13.8% to 15.0%) plus also the threshold when it starts becoming payable (down from £9,100 to £5,000). This is an example of how a key variable – outside of the Council control - can change with little or no notice.

9. Inflation on Non Pay

We are still in an era of higher than average inflation and levels not seen since before 2008. The Bank of England has a remit to keep inflation on track at c2%, however CPI inflation rose to over 11% before starting to fall back (at the time of writing to 3.6% based on October 2025 CPI). This impacts on existing contracts with Suppliers that contain inflation linked provisions and also the pricing of new contracts (both revenue and capital).

Suppliers working in the Social Care Sector are also impacted by the WG's commitment to pay registered Social Care Workers the Real Living Wage, which similar to the National Living Wage is seeing substantial annual increases, which creates significant inflation costs on externally commissioned Care Services.

Inflation on Non Pay therefore remains a Budget risk, particularly regarding the impact of the Employers' National Insurance increase on Suppliers and how they choose to deal with it. Inflation in Ceredigion typically still remains higher than the national CPI measure.

10. Post COVID19 impacts

2020 through to 2022 were unprecedented for the Council both financially and operationally due to the COVID19 pandemic. Whilst the large scale risk that existed has largely dissipated, post COVID impacts are being seen in several places.

This is ranging from Recruitment and Retention challenges in several services to operational practicalities where, for example, the volume and

complexity of cases being seen in Education and Social Care is significantly higher than in pre COVID 'normal' times. The latter includes a significant rise in Looked after Children in out of county placements as well as increases in other areas such as Additional Learning Needs and residential placements for Learning Disabilities and Mental Health.

11. Use of Agency staff

The Recruitment and Retention challenge remains highly significant, with several areas of Social Care in particular continuing to use Agency staff. This is to cover core statutory professional Social Worker posts as well as shifts within Local Authority Care Homes. Various HR strategies have been implemented including Market Supplements for Social Workers, but yet the level of agency use is still highly significant and is presenting an ongoing financial risk.

12. Phosphates

Following Natural Resource Wales publishing evidence of phosphate levels for the River Teifi riverine Special Area of Conservation (SAC) and the issuance of interim Planning position statement / guidance in May 2021.

The effect of this covers 45% of land in Ceredigion and this is going to create significant issues in bringing forward Developments in the areas affected until the matter is fully resolved. In narrow terms this has the potential to affect areas such as Planning Fee and Building Control Income, but in a wider sense has the potential for far reaching Housing and Economic development implications.

Some head room has since emerged in some areas but full details future Dwr Cymru Welsh Water investment programmes are awaited. Early investment would potentially reduce the risk identified. However, additional constraints are envisaged when evidence and guidance is released for Marine Special Areas of Conservation.

13. Council Tax Premiums

The Council's decision on 14/12/23 to increase the Council Tax Premiums applicable to Second Homes and Long Term Empty Properties was a significant policy change.

The number of properties subject to a Council Tax Premium in the different categories is being closely monitored on a regular basis in order to understand any potential trends and to see what behavioural change etc is actually happening in practice (e.g. What proportion of property owners will choose to pay the new level of Premium versus attempting to avoid it or choosing to sell their property). It remains early days for the new policy, particularly with the further stepped increase to 150% applicable for Second Homes from April 2025.

There are therefore risks to Council Tax collection rates as well as the number of properties subject to a premium, however a prudent approach has been taken in the Taxbase estimates.

14. Fire Safety Protection Measures

As a result of legislation following the Grenfell disaster, Mid & West Wales Fire and Rescue Service have increased the number of fire safety inspections in Schools, Care homes and other key Council buildings.

The most recent fire inspections have highlighted that there is a considerable amount of works required in order that all Council buildings comply with the regulations. There are substantial revenue and capital costs associated with ensuring full absolute compliance across all Council buildings.

The Council is working with M&WWFRS to create action plans for each building as they are inspected and reviewed. This involves creating an individual Fire Strategy for each individual property to enable fire safety works to be prioritised in recognition that resources are finite.

15. External Legal Challenges

As the Budget position gets more challenging (and therefore the decisions required by Members also become more challenging and potentially more contentious in their nature due to the greater potential impact on front line services), the risk of potential external challenge to some of those decisions may also rise. The impact of this can range from impacting on already stretched resources to a re-consideration of individual decision(s) if the grounds are strong enough.

However the Council needs to ensure its Services are efficient and effective, therefore avoiding changes to Services when there are more innovative and efficient delivery approaches available would not demonstrate continuous improvement and value for money for the taxpayer.

16. Extended Producer Responsibilities for Packaging

The UK Government, through DEFRA, are bringing in new regulations in relation to Producer Responsibility Obligations (Packaging and Packaging Waste). As a result, the producers of non-recyclable packaging across the UK will start paying a levy on their products using certain non-recyclable materials once the regulations come into force.

The regulations will also provide that part of the monies raised through this levy will be re-distributed to Local Authorities across the UK in order to help them with the costs of their waste collection and waste disposal streams. This is a complex set of changes and it remains unclear exactly how the new system will actually work in practice or what it will mean financially (including any impact in relation to WG's current grant funding being provided through the Sustainable Waste Management grant).